# Cenn@d

AWST 14 2024 | YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* | RHIF 181


## Gweithwyr ymhlith plant – mae ar ein heglwysi eich angen CHI!

### Ymateb i argyfwng

Dros y pum mlynedd diwethaf daeth llawer o waith plant yn ein heglwysi i ben. Bydd ardaloedd cyfan bellach heb ysgol Sul neu glwb plant, a neb yn ymweld ag ysgolion i arwain gwasanaethau neu gynllun Agor y Llyfr. Mae sawl teulu wedi cysylltu â ni yn dweud eu bod yn profi cryn anhawster yn aml i ddod o hyd i eglwys sy'n cynnig darpariaeth i deuluoedd.

Ond erys y ffaith bod ein cymunedau ar y cyfan yn llefydd sy'n llawn plant o hyd, ac yn aml nid prinder plant a welir, ond prinder arweinwyr. Wedi cyfnod y clo bu i lawer o athrawon ac arweinwyr ymddeol o waith yr ysgol Sul, ac erbyn hyn tystia llawer o ardaloedd nad oes neb ar gael i barhau â'r gwaith. Bellach, nid oes gan 95% o blant Cymru gysylltiad real ag eglwys, a heb do newydd o bobl sy'n barod i ymroi i'w haddysgu am y ffydd a'r cefndir Beiblaidd bydd y ffigur yma'n cynyddu.

### Hyfforddiant a chefnogaeth ar gael

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae grŵp o enwadau a sefydliadau ar hyd a lled Prydain, gan gynnwys y Cyngor Ysgolion Sul, wedi bod yn gweithio ar gwrs newydd er mwyn hyfforddi, ysbrydoli ac arfogi'r don nesaf o weithwyr plant yn ein heglwysi. Efallai y bydd rhai ohonoch yn dwyn i gof gynlluniau hyfforddiant






Caleidosgob (a gyhoeddwyd yn 1992) a Dal d'afal (a gyhoeddwyd yn 2007), a fu'n fodd i gynnig hyfforddiant i weithwyr plant dros gyfnod o 30 mlynedd. Fodd bynnag, cafwyd sawl newid a datblygiad dros y cyfnod hwnnw, a gwelwyd yr angen am gynllun newydd.

### Hanfodion gweithio gyda phlant

Erbyn mis Medi eleni bydd cwrs newydd ar gael. Cwrs digidol ar-lein fydd hwn, wedi ei ddatblygu gan Theology X, sydd wedi ei leoli yng ngholeg Cliff yn Swydd Derby, dan nawdd yr Eglwys Fethodistaidd. Bydd hwn yn gwrs 10 modiwl y gall unigolyn ei wneud yn ei amser ei hun, neu mae'n bosib gweithio dros Zoom fel rhan o grŵp o dan arweiniad hwylusydd. Er mai yn Saesneg yn unig y mae'r cwrs ar gael y tro yma, bydd modd gweithio gyda grwpiau Cymraeg dros Zoom, lle byddai cyfle i drafod cwestiynau dros y we.

Bydd dau gwrs newydd ar gael, sef Essential Children's Ministry, a fydd yn cael ei lansio fis Medi 2024, ac yna Essential Family Ministry, a fydd yn cael ei lansio fis Medi 2025. Dyma gyfle gwych i gynnig hyfforddiant gwerth chweil i baratoi criw o weithwyr newydd ar gyfer y dyfodol, neu efallai i ysbrydoli rhai sydd eisoes yn rhan o'r gwaith. Gellid ei drefnu ar lefel enwadol neu'n rhanbarthol yn gydenwadol – efallai fel project gofalaethol neu fel Cyfundeb / Cymanfa / Henaduriaeth.

### Cefnogaeth mewn adnoddau

Ni fu cyfnod yn ein hanes lle bu cymaint o ddewis ar gael ar gyfer gweinidogaethu ymhlith plant. Mae digonedd o werslyfrau a Beiblau gweithgaredd ar gael, digon o adnoddau am ddim ar y we, a digon o gynlluniau gwahanol sy'n fentrus a chyffrous. Ond, er mwyn i'r rhain lwyddo'n lleol, rhaid wrth bobl sy'n barod i fentro ac sy'n barod i ddatblygu sgiliau newydd. Tybed a yw Duw yn eich galw chi? Mae'n alwedigaeth arbennig, a braint aruthrol yw plannu hadau ym mywydau pobl ifanc. Cewch mwy o wybodaeth am y cyfan ar wefan www.ysgolsul.com.

*Aled Davies*


O'r byd a'r betws
Tudalen 3

Sioe Fawr y Cardis – bwrlwm gweithgaredd yr eglwysi dan nawdd Cytûn
Tudalen 4